**GORCHYMYN SIR GAERFYRDDIN**
**(FFORDD A ELWIR HEOL HEN, PUMP-HEWL)**
**(GWAHARDDIAD DROS DRO AR DRAFFIG TRWODD) 2025**

---

**GAN FOD** Cyngor Sir Caerfyrddin (y cyfeirir ato o hyn ymlaen yma fel "y Cyngor"), sef yr Awdurdod Priffyrdd ar gyfer y darn hwnnw o Ffordd Ddiddosbarth yr C2209 a elwir Heol Hen, Pump-hewl o bwynt sydd 562 o fetrau i'r gogledd-orllewin o'r gyffordd â'r B4309 am bellter o 814 o fetrau i gyfeiriad cyffredinol y gogledd-ddwyrain, yn fodlon y dylid cyfyngu ar y traffig ar y darn ffordd dan sylw yn sgil y gwaith y bwriedir ei wneud arno.

**YN AWR** gan hynny, mae'r Cyngor, gan arfer ei bwerau o dan Adran 14(1) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (fel y'i diwygiwyd) a'r holl bwerau galluogol eraill, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:-

1. Ni chaiff neb achosi i unrhyw gerbyd fynd ar hyd y darn hwnnw o Ffordd ddiddosbarth yr C2209 a elwir Heol Hen, Pump-hewl o bwynt 562 o fetrau i'r gogledd-orllewin o'r gyffordd â'r B4309 am bellter o 814 o fetrau i gyfeiriad cyffredinol y gogledd-ddwyrain.

2. Bydd y Gorchymyn hwn yn dod i rym ar yr unfed diwrnod ar hugain o Orffennaf Dwy Fil a Dau Ddeg Pump a gellir cyfeirio ato fel Gorchymyn Sir Gaerfyrddin (Heol Hen, Pump-hewl) (Gwaharddiad Dros Dro Ar Draffig Trwodd) 2025.

Rhoddwyd SÊL GYFFREDIN )

**CYNGOR SIR CAERFYRDDIN** )

ar y ddogfen hon )

ar yr ail o Orffennaf 2025
ym mhresenoldeb:- )

Steven P Murphy

19164

**Steven P Murphy**

**Pennaeth y Gyfraith, Llywodraethu a Gwasanaethau Sifil**